Nodiadau cynllunio athrawon. Cyfnod Allweddol 3 : 1.

AMCANION ADDYSGU

Lefel geiriau
14: diffinio a defnyddio geiriau'n fanwl gywir, gan gynnwys eu hunion synnwyr o fewn y cyd-destun;

Lefel brawddegau
18: nodi ffyrdd penodol y mae strwythur brawddegau ac atalnodi yn wahanol mewn testunau hŷn.

Lefel testun
Darllen
2: defnyddio strategaethau darllen priodol i gael gwybodaeth benodol, e.e. amlygu, sganio;
8: casglu a chanfod ystyron gan ddefnyddio tystiolaeth yn y testun, gan nodi ble a sut yr awgrymir ystyron;
Ysgrifennu
10: trefnu testunau mewn ffyrdd sy'n briodol i'w cynnwys, e.e. yn ôl cronoleg, blaenoriaeth, cymharu, a nodi'r rhain ag arwyddion yn glir i'r darllenydd;
15: mynegi barn bersonol, gan ychwanegu pwyslais perswadiol i bwyntiau allweddol, e.e. drwy ailadrodd, gor-ddweud, ailadrodd, defnyddio cwestiynau rhethregol;
Siarad a gwrando
12. defnyddio iaith esboniadol, damcaniaethol a synfyfyriol fel ffordd o ymchwilio i syniadau ac ymestyn y broses o feddwl.

Gwaith lefel testun – darllen a thrafod	Gwaith lefel testun – ysgrifennu
■ Adrodd stori Cynllwyn y Powdwr Gwn – archwilio cronoleg y stori. ■ Ym mha ran o'r stori gyfan y daw'r darn hwn – beth sydd wedi dod cyn y darn? ■ Beth mae awdur y llythyr yn ceisio ei ddweud wrth yr Arglwydd Monteagle? ■ A allwch ragweld beth fyddai'r Arglwydd Monteagle yn ei wneud ar ôl darllen y llythyr?	■ Nodi'r rhybudd yn y llythyr hwn – ysgrifennu'r llythyr yn symlach ac yn fwy nerthol mewn iaith gyfoes. ■ Ysgrifennu llythyr at ffrind agos yn adrodd stori Cynllwyn y Powdwr Gwn. ■ Ysgrifennu stori fel adroddiad papur newydd, gan gynnwys y pennawd.
Gwaith lefel brawddegau	**Gwaith lefel geiriau – sillafu a geirfa**
■ Trafod y defnydd o atalnodi yn y llythyr hwn. ■ Archwilio'r defnydd o eiriau anghyfarwydd yn y llythyr.	■ Archwilio'r defnydd o eiriau anghyfarwydd yn y llythyr hwn. ■ Trafod yr eirfa a'r sillafu a ddefnyddiwyd gan awdur y llythyr. ■ Paratoi rhestr o eiriau nadfyrydym o bosibl yn eu defnyddio yn yr un ffordd heddiw ac egluro ystyr y geiriau.

Cysylltiadau cwricwlaidd

■ Mewn gwers hanes, trafod natur y dystiolaeth a'r hyn a ddywed wrthym am ddigwyddiadau yn y gorffennol.

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry

Darnau o The Weekely Newes Number 19, dyddiedig dydd Llun 31ain Ionawr 1606

(1) The following is a copy of a letter, in simplified English, which was left at the house of Lord Monteagle, and which happily led to the discovery of this most horrible conspiracy:

To: Lord Monteagle

My Lord,

Out of the love that I bear to some of your friends I have a care of your preservation, therefore I would advise you, as you tender your life, to devise some excuse to shift of your attendance at this parliament: for God and man have concurred to punish the wickedness of this time. And think not slightly of this advertisement, but retire yourself into your own country, where you may expect the event in safety.

For though there may be no appearance of any stir, yet I say they shall receive a terrible blow this Parliament, and yet they shall not see who hurt them. This counsel is not to be contemned, because it may do you good, and can do you no harm, for the danger is passed as soon as you have burnt this letter, and I hope God will give you the grace to make good use of it.

Anon

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry

Nodiadau cynllunio athrawon. Cyfnod Allweddol 3 : 2.

AMCANION ADDYSGU

Lefel geiriau
6. y defnydd o gollnodau gan gynnwys: hepgoriadau; y collnod meddiannol yn Saesneg; defnyddio collnodau yn Saesneg gyda ffurfiau Nuosog e.e. ladies' coats, a geiriau Saesneg syln gorffu gydag 's'; eithriad rhagenwau meddiannol.

Lefel Brawddegau
3. defnyddio atalnodi i wneud ystyr yn eglur, yn arbennig y ffiniau rhwng brawddegau a chymalau.

Lefel Testun
Darllen
8. casglu a chanfod ystyron gan ddefnyddio tystiolaeth yn y testun, gan nodi ble a sut yr awgrymir ystyron;
20. archwilio'r syniad o dreftadaeth hanesyddol a deall pam y bu rhai testunau yn arbennig o ddylanwadol neu arwyddocaol.
Ysgrifennu
3. defnyddio ysgrifennu i archwilio a datblygu syniadau, e.e. dyddiaduron, technegau tasgu syniadau a gweithgareddau mapio meddyliol;
6. portreadu cymeriadau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, trwy ddisgrifiadau, deialog a gweithredoedd;
Siarad a gwrando
1. defnyddio siarad fel offeryn i egluro syniadau, e.e. trwy ddisgrifio problemau neu ofyn cwestiynau perthnasol.

Gwaith lefel testun – darllen a thrafod	Gwaith lefel testun – ysgrifennu
■ Trafod ystyron posibl yr hyn a ddywed Lennox yn y darn hwn. ■ Trafod y cyfeiriadau posibl at Gynllwyn y Powdwr Gwn.	■ Trafod sut y gellid cyflwyno digwyddiadau hanesyddol fel drama. ■ Ysgrifennu deialog am ran o ddrama sy'n nodi digwyddiadau hanesyddol – ystyried sut y gellid cyflwyno ffeithiau, neu farn benodol yr awdur drwy ddeialog.
Gwaith lefel brawddegau	**Gwaith lefel geiriau – sillafu a geirfa**
■ Trafod yr atalnodi yn y darn hwn – ystyried sut mae'n cyfrannu at fesur a rhythm.	■ Adolygu'r defnydd o gollnodau – yn arbennig wrth nodi llythrennau a gaiff eu hepgor e.e. i'th'air. ■ Ystyried sut y defnyddir y collnod yma a'i gysylltiad â mesur.

Cysylltiadau cwricwlaidd

Mewn gwers hanes, trafod cyd-destun Lloegr yn amser Shakespeare – trafod ei ddramâu fel darnau o hanes/esboniadau.
Ystyried cysylltiadau posibl â Chynllwyn y Powdwr Gwn yn y darn hwn.

(Nodyn: Ysgrifennodd Shakespeare Macbeth ym 1605 neu 1606. Tybir i'r ddrama gael ei pherfformio yn gyntaf gerbron Iago I ym 1606, y flwyddyn ar ôl Cynllwyn y Powdwr Gwn).

Ffrwydron yw tân gwyllt
GAIR I GALL

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
carrot
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry

Darn o: Macbeth gan William Shakespeare

LENNOX: Goes the king hence today?

MACBETH: He does – he did appoint so.

LENNOX: The night has been unruly: where we lay,
Our chimneys were blown down, and, as they say,
Lamentings heard i'th'air, strange screams of death
And prophesying with accents terrible
Of dire combustion and confused events,
New hatched to th'woeful time. The obscure bird
Clamoured the livelong night. Some say, the earth
Was feverous and did shake.

MACBETH: 'Twas a rough night

LENNOX: My young remembrance cannot parallel
A fellow to it

MACDUFF: O horror, horror, horror! Tongue nor heart
Cannot conceive nor name thee!

MACBETH: What's the matter.

MACDUFF: Confusion now hath made his masterpiece!
Most sacrilegious murder hath broke ope
The Lord's anointed temple, and stole thence
The life o' the building!

MACBETH: What is 't you say? the life?

LENNOX: Mean you his majesty?

MACDUFF: Approach the chamber, and destroy your sight
With a new Gorgon: do not bid me speak;
See, and then speak yourselves.

Exeunt MACBETH and LENNOX

Awake, awake!
Ring the alarum-bell. Murder and treason!
Banquo and Donalbain! Malcolm! awake!
Shake off this downy sleep, death's counterfeit,
And look on death itself! up, up, and see
The great doom's image! Malcolm! Banquo!
As from your graves rise up, and walk like sprites,
To countenance this horror! Ring the bell.

Ffrwydron yw tân gwyllt
GAIR I GALL

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry

Nodiadau cynllunio athrawon. Cyfnod Allweddol 3 : 3.

AMCANION ADDYSGU

Lefel Geiriau
14. diffinio a defnyddio geiriau yn fanwl gywir, gan gynnwys eu hunion synnwyr o fewn y cyd-destun.

Lefel Brawddegau
3. defnyddio atalnodi i egluro ystyr, yn arbennig y ffiniau rhwng brawddegau a chymalau;
8. cydnabod yr arwyddion i ddechrau paragraff newydd a defnyddio'r frawddeg gyntaf yn effeithiol i lywio'r darllenydd.

Lefel Testun
Darllen
7. nodi'r prif bwyntiau, prosesau neu syniadau mewn testun a sut y cânt eu rhoi mewn trefn a'u datblygu gan yr awdur;
Ysgrifennu
3. defnyddio ysgrifennu i archwilio a datblygu syniadau, e.e. dyddiaduron, technegau tasgu syniadau a gweithgareddau mapio meddyliol;
Siarad a Gwrando
15. datblygu technegau drama er mwyn archwilio amrywiaeth o sefyllfaoedd a thestunau drwy chwarae rôl neu ymateb i symbyliadau.

Gwaith lefel testun

Darllen – Disgrifio'r digwyddiadau sy'n arwain at ddamwain y ferch.
Ysgrifennu - Ysgrifennu dyddiadur y ferch ifanc am yr ychydig ddyddiau cyn y ddamwain.
Siarad a Gwrando –
- Holi'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r ddamwain – sedd boeth.
- Trafod effeithiau tân gwyllt ar anifeiliaid.

Gwaith lefel geiriau

- Archwilio'r pennawd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad – trafod y defnydd o ddyfynodau.
- Archwilio'r eirfa a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r bobl yn yr adroddiad hwn e.e. y bobl ifanc.

Gwaith lefel brawddegau

- Archwilio'r ansoddeiriau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r bobl yn yr adroddiad hwn – y bobl ifanc.
- Trafod swyddogaeth y frawddeg gyntaf ym mhob paragraff. Gwnewch sylwadau ar sut mae'n denu sylw'r darllenydd at y ffaith y bu newid yn y pwnc dan sylw.

Cysylltiadau cwricwlaidd

- Mewn gwers ABCh, archwilio cyfrifoldeb cymdeithasol yr ymddygiad sy'n anafu pobl eraill.
- Mewn gwers dinasyddiaeth, archwilio rôl y cyfryngau.

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry

Gallai merch a anafwyd gan dân gwyllt fod ‘wedi ei chreithio am oes’

Heddiw, mae merch ifanc yn wynebu llawdriniaeth mewn ysbyty yn dilyn anafiadau a achoswyd gan dân gwyllt.

Dioddefodd y ferch 10 oed losgiadau difrifol i'w hwyneb, dwylo a breichiau pan afaelodd mewn roced a ffrwydrodd yn ei dwylo.

Bu'n gwylio criw o bobl ifanc yn tanio tân gwyllt mewn man chwarae yn Barton Street, Devonholme. Dywed pobl sy’n byw gerllaw bod un o'r bobl ifanc wedi rhoi'r roced mewn potel. Roedd y ffiws wedi ei thanio ond roedd y botel wedi troi ar ei hochr.

Roedd y ferch wedi bod yn chwarae ar siglenni cyfagos a rhedodd draw i'w chodi pan ffrwydrodd y tân gwyllt. Cafodd y ferch ei chludo mewn ambiwlans i uned ddamweiniau Ysbyty Devonholme a dywedwyd neithiwr bod ei chyflwr yn 'wael'.

Dywedodd yr Arolygydd Peter Smith o Heddlu Devonholme: "Roedd wedi cael ei llosgi'n ddrwg iawn ac efallai y bydd wedi ei chreithio am oes. Mae hi'n unigolyn diniwed sy'n dioddef oherwydd gweithredoedd di-hid pobl eraill.

"Gall tân gwyllt roi llawer o fwynhad yn eu lle priodol, sef mewn arddangosiadau sydd wedi eu trefnu'n gywir neu mewn partïon preifat sydd wedi eu harolygu'n gywir. Mae hyn yn dangos y canlyniadau trychinebus sy'n deillio o gamddefnyddio tân gwyllt."

Dywedodd eu bod wedi siarad â nifer o bobl ifanc yn dilyn y digwyddiad a'u bod yn cynnal ymholiadau i sut yr oeddent wedi cael gafael ar y tân gwyllt.

Cadarnhaodd yr Arolygydd Smith fod yr heddlu wedi cael eu galw i ddigwyddiad yn yr un ardal ddwy noson ynghynt.

Roedd hynny yn dilyn cwynion gan bobl ag anifeiliaid anwes a oedd wedi cael eu dychryn gan sŵn tân gwyllt yn cael eu tanio.

Fodd bynnag, roedd y bobl ifanc hynny wedi rhedeg i ffwrdd cyn iddynt allu siarad â hwy.

Ffrwydron yw tân gwyllt

GAIR I GALL

Mewn cydweithrediad â

Fight for Sight

child accident prevention trust

dti

Department of Trade and Industry

Nodiadau cynllunio athrawon. Cyfnod Allweddol 3 : 4.

AMCANION ADDYSGU

Lefel geiriau
14. diffinio a defnyddio geiriau'n fanwl gywir, gan gynnwys eu hunion synnwyr o fewn y cyd-destun

Lefel brawddegau
13d) Cyfarwyddiadau, sy'n dilyn ei gilydd yn drefnus ac a nodwyd ag arwydd, defnyddio berfau gorchmynnol a darparu arweiniad clir.

Lefel Testun

Darllen
6. mabwysiadu ymagweddau darllen gweithredol er mwyn ymgymryd â'r testun a gwneud synnwyr ohono, e.e. dychmygu, rhagweld, empatheiddio a chysylltu â phrofiadau personol;
10. nodi sut y caiff testunau yn y cyfryngau eu teilwra er mwyn bod yn addas i'w cynulleidfa, a chydnabod y gynulleidfa honno
11. cydnabod sut mae print, sain a delweddau llonydd neu rai sy'n symud yn cyfuno i greu ystyr.

Ysgrifennu
1. cynllunio, drafftio, golygu, diwygio, prawfddarllen a chyflwyno testun gyda darllenwyr a diben mewn golwg;
5. strwythuro stori gydag agoriad trawiadol, plot sy'n datblygu, digwyddiad cymhleth, argyfwng a datrysiad boddhaol;
8. arbrofi gydag effeithiau gweledol a sain iaith, gan gynnwys defnyddio delweddau.

Siarad a Gwrando
5. hyrwyddo, cyfiawnhau neu amddiffyn barn gan ddefnyddio tystiolaeth ategol, enghreifftiau ac eglurhad sy'n gysylltiedig â'r brif ddadl.

Gwaith lefel testun – darllen a thrafod
Trafod yr ystyron a gyfathrebir yn y geiriau ar y poster.
Trafod y ffordd y mae cynllunydd y poster yn cyfathrebu'r neges ganolog – ystyried yr effeithiolrwydd gyda myfyrwyr y grŵp oedran hwn.

Gwaith lefel testun – ysgrifennu
Archwilio'r ffyrdd y defnyddir y posteri i gyfathrebu gwybodaeth – rhestru themâu eraill – dylunio poster ar un o'r themâu hyn gan roi sylw i'r neges a'r lluniau.

Gwaith lefel brawddegau
Poster rhybudd yw hwn; gofynnwch i'r myfyrwyr archwilio neges ganolog y poster.

Gwaith lefel geiriau
Ystyried ystyron dwbl geiriau a sut y gellir manteisio ar y rhain – e.e. defnyddio'r gair 'chwarae' yn y poster hwn.
Trafod geiriau eraill sy'n cynnwys amwysedd a sut y gellir defnyddio'r rhain.

Cysylltiadau cwricwlaidd

- Trafod hysbysebu mewn gwers ABCh/dinasyddiaeth.
- Ystyried pa mor briodol yw delweddau ar bosteri a hysbysebion, trafod chwaeth, effaith a chyfleu'r neges.

Ffrwydron yw tân gwyllt
GAIR I GALL

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry



Ffrwydron yw tân gwyllt

GAIR I GALL

Fight for Sight

dti
Department of Trade and Industry

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu gydag isafswm sgôr y Llyfrfa o 50. Awst 2002. Adran Masnach a Diwydiant. http://www.dti.gov.uk/ Hawlfraint y Goron. DTI/PUB5020 10K URN 00/st51